
cplll | Cynllun Pensiwn Llywodraeth Leol

Cronfa Bensiynau **CLWYD** Pension Fund



# Cynllun Pensiwn Llywodraeth Leol

## Taflen Wybodaeth am Gyfuno Pensiwn Opsiwn D2: Cyfuno eich cofnodion pensiwn

Ebrill 2025

# Tudalen Cynnwys


Cyflwyniad ..... 4

Pwynt i'w nodi ..... 4

Beth sydd angen i mi ei ystyried cyn gwneud fy mhenderfyniad? ..... 4

Opsiwn 1 ..... 5

Pryd fydd fy muddion yn daladwy? ..... 5

Rheol 85 ..... 5

Opsiwn 2 ..... 6

Pryd fydd fy muddion yn daladwy? ..... 6

Rheol 85 ..... 6

Opsiwn 3 ..... 6

Sut bydd y buddion o fy swydd flaenorol yn cael eu cyfrifo? ..... 7

Pryd fydd fy muddion yn daladwy? ..... 7

Rheol 85 ..... 7

Pa wahaniaethau allweddol sydd os byddaf yn dewis cadw fy muddion gohiriedig ar wahân? ..... 7

A oes unrhyw beth pwysig arall i'w ystyried? ..... 10

Cyfandaliad marw yn y swydd ..... 10

Goblygiadau Treth Posibl ar Lwfans Blynyddol ..... 11

Talu cyfraniadau ychwanegol ..... 11

Trosglwyddo gwerth eich buddion gohiriedig i gynllun pensiwn arall ..... 11

Esbonio'r jargon ..... 12

Cyfrifo eich buddion yn y CPLlL ..... 12

Cynllun Cyfartaledd Gyrfa ..... 12

Cynllun Cyflog Terfynol ..... 12

Lwfans Blynyddol ..... 13

Mynegai Prisiau Defnyddwyr ..... 13

Cyflog terfynol ..... 13

Oedran ymddeol arferol ..... 14

Talu cyfraniadau ychwanegol? ..... 15

Prynu blynyddoedd ychwanegol (aelodaeth ychwanegol) ..... 15

Talu cyfraniadau rheolaidd ychwanegol (CRhY) ..... 16

Talu cyfraniadau pensiwn ychwanegol (CPY) ..... 16

Cyfraniadau gwirfoddol ychwanegol (CGY) .......... 17
Cynllun pensiwn sector cyhoeddus .......... 17
Rheol 85 .......... 17
Beth yw Rheol 85? .......... 17
I bwy mae'r rheol yn berthnasol? .......... 18
Os wyf yn penderfynu cyfuno fy muddion, a fydd hynny'n effeithio ar fy mesurau diogelu rheol 85? .......... 19
Ble allaf i ddod o hyd i ychwaneg o wybodaeth? .......... 19
Ymwadiad .......... 19



Cronfa Bensiynau CLWYD Pension Fund

# Cyflwyniad

Mae’r daflen hon yn berthnasol i chi gan fod gennych gofnodion pensiwn CPLlL sy’n cynnwys:

- cofnod pensiwn gohiriedig sy’n cynnwys aelodaeth cyn mis Ebrill 2014 yn unig
- bod gennych gofnod pensiwn gweithredol newydd yr ydych wedi dechrau talu cyfraniadau pensiwn iddo ar neu ar ôl 1 Ebrill 2014
- nid oes toriad o bum mlynedd neu fwy wedi bod rhwng eich cofnodion pensiwn gohiriedig a’ch pensiwn gweithredol

# Pwynt i’w nodi

Mae’r canllaw hon yn egluro mai’r oedran ymddeol isaf yw 55 oed ar hyn o bryd.

Mae Llywodraeth y DU wedi cyhoeddi y bydd yr oed cynharaf y gallwch dynnu eich pensiwn yn cynyddu o 55 oed i 57 oed o 6 Ebrill 2028. Nid yw hyn yn berthnasol os ydych angen cymryd eich pensiwn yn gynt oherwydd salwch.

Fe allech gael eich gwarchod rhag y cynnydd hwn os gwnaethoch ymuno â’r CPLlL yng Nghymru a Lloegr cyn 4 Tachwedd 2021. Gallech hefyd fod wedi’ch gwarchod os gwnaethoch drosglwyddo pensiwn blaenorol i’r Cynllun, os yw rhai amodau penodol wedi’u bodloni. Fodd bynnag, dim ond pan fyddwch chi’n tynnu eich pensiwn CPLlL y byddwch chi’n gallu cael eich gwarchod, os yw rheolau’r Cynllun yn caniatáu ichi dynnu eich pensiwn cyn troi’n 57 oed.

Llywodraeth y DU sy’n gosod rheolau Cynllun Pensiwn Llywodraeth Leol. Nid yw wedi ei gadarnhau eto os bydd yn caniatáu i aelodau, sy’n gymwys i gael eu gwarchod, gymryd eu pensiwn CPLlL cyn eu bod yn 57 mlwydd oed o 6 Ebrill 2028.

Lle mae 55 yn cael ei nodi ar weddill y anllaw hon, cofiwch y bydd hyn yn newid i 57 o 6 Ebrill 2028.

# Beth sydd angen i mi ei ystyried cyn gwneud fy mhenderfyniad?

Ar hyn o bryd, mae gennych fuddion gohiriedig ar wahân ar gyfer eich swydd flaenorol yn y CPLlL.  Os nad ydych chi’n gwneud unrhyw beth, bydd eich buddion gohiriedig yn aros ar wahân i’ch cofnod pensiwn gweithredol newydd. Mae angen i chi feddwl am y pethau canlynol wrth benderfynu a ddylech chi gadw eich buddion ar wahân ai peidio:

- Sut bydd y buddion o fy swydd flaenorol yn cael eu cyfrifo?
- Pryd fydd fy muddion yn cael eu talu?
- A oes unrhyw beth pwysig arall i’w ystyried?

# Opsiwn 1

Gallwch ddewis cyfuno eich buddion gohiriedig cyn 1 Ebrill 2014 gyda'ch cofnod pensiwn gweithredol newydd a bydd yn dal i gyfrif fel aelodaeth cynllun cyflog terfynol.

I wneud hyn, mae angen i chi ddewis cyn pen 12 mis ar ôl ail-ymuno â'r cynllun i gael eich trin fel petaech yn talu cyfraniadau CPLlL ar 31 Mawrth a 1 Ebrill 2014. Os ydych yn dewis gwneud hyn, bydd eich buddion a gronnwyd cyn 1 Ebrill 2014 yn cael eu cyfuno â'ch cofnod pensiwn newydd a bydd buddion yr aelodaeth honno'n dal i gyfrif fel buddion cyflog terfynol. Mae hyn yn golygu pan fyddwch yn rhoi'r gorau i dalu cyfraniadau CPLlL yn y dyfodol, bydd y buddion a gronnwyd gennych cyn 1 Ebrill 2014 yn cael eu cyfrifo gan ddefnyddio eich cyflog terfynol cyfwerth â llawn amser yn eich swydd newydd.

Bydd angen i chi feddwl am hyn yn ofalus wrth benderfynu a ydych am ddewis opsiwn 1, yn enwedig os yw eich tâl cyfwerth â llawn amser yn y swydd newydd yn llai na'r tâl terfynol cyfwerth â llawn amser y mae eich buddion gohiriedig yn seiliedig arno (gyda chynnydd yn unol â chostau byw).

Os byddwch yn penderfynu peidio â chyfuno eich buddion blaenorol gyda'ch cofnod pensiwn gweithredol newydd, bydd eich buddion gohiriedig (a gyfrifwyd yn defnyddio eich tâl terfynol cyfwerth â llawn amser yn y swydd a adawoch) yn parhau i gynyddu yn unol â chwyddiant.

Mae pethau eraill y bydd angen i chi feddwl amdanyn nhw hefyd.

## Pryd fydd fy muddion yn daladwy?

**Os ydych yn dewis Opsiwn 1:** Bydd gan y buddion a gronnwyd gennych cyn 1 Ebrill 2014 oedran ymddeol arferol o 65. Ar gyfer y buddion yr ydych wedi'u cronni yn y cynllun cyfartaledd gyrfa (o 1 Ebrill 2014), mae eich oedran ymddeol arferol yn gysylltiedig ag oedran Pensiwn y Wladwriaeth (neu 65 oed os yw'n hwyrach). Os yw'ch buddion gohiriedig wedi'u cyfuno â'ch cofnod pensiwn gweithredol newydd ac os oes unrhyw fuddion cyflog terfynol yr ydych wedi'u cronni eisoes yn cael eu cyfrif fel buddion cyflog terfynol, 65 oed fydd yr oedran ymddeol o hyd.

## Rheol 85

Os bydd eich buddion gohiriedig blaenorol yn cael eu cyfuno â'ch swydd newydd, a bod gennych fesurau diogelu rheol 85, bydd y mesurau diogelu hyn yn trosglwyddo i'ch cyfrif pensiwn gweithredol newydd. Fodd bynnag, gall y dyddiad lle'r ydych yn bodloni rheol 85 symud yn nes at eich oedran pensiwn arferol gan na fydd y bwlch mewn gwasanaeth rhwng eich cyfnod blaenorol fel aelod a'ch cyfnod newydd fel aelod yn cyfrif tuag at reol 85.

Os byddwch yn penderfynu peidio â chyfuno'ch buddion gohiriedig blaenorol gyda'ch cofnod pensiwn gweithredol newydd a bod gennych fesurau diogelu rheol 85, dim ond i'ch buddion gohiriedig y mae'r rhain yn parhau i fod yn berthnasol.

# Opsiwn 2

Gallwch ddewis cyfuno eich buddion gohiriedig gyda’ch cofnod pensiwn newydd i brynu swm o bensiwn yn y cynllun cyfartaledd gyrfa, a fydd yn cael ei ychwanegu at eich cofnod pensiwn gweithredol newydd.

Os ydych yn dewis Opsiwn 2: Bydd eich buddion gohiriedig blaenorol yn cael eu cyfuno gyda’ch cofnod pensiwn gweithredol newydd ac ni fydd yr aelodaeth a gasgloch chi cyn 1 Ebrill 2014 yn y cynllun cyflog terfynol yn cyfrif bellach fel buddion cyflog terfynol. Yn lle hynny, bydd gwerth y buddion a gronnwyd cyn 1 Ebrill 2014 yn prynu swm o bensiwn yn y cynllun cyfartaledd enillion gyrfa, a gaiff ei ychwanegu at eich cofnod pensiwn gweithredol newydd.

## Pryd fydd fy muddion yn daladwy?

Os ydych yn dewis opsiwn 2, bydd eich buddion cyfun yn daladwy ar eich oedran ymddeol arferol o dan y cynllun cyfartaledd gyrfa. Eich Oedran Pensiwn y Wladwriaeth (neu 65 oed os yw’n hwyrach) yw hwn.

## Rheol 85

Os ydych yn dewis opsiwn 2, bydd unrhyw fesurau diogelu rheol 85 a oedd gennych chi’n flaenorol yn cael eu hadlewyrchu yn y swm o bensiwn a brynir. Felly, i adlewyrchu’r ffaith y byddai’r buddion blaenorol hynny’n daladwy heb ostyngiad wrth gyrraedd eich oedran ymddeol arferol yn y cynllun cyfartaledd enillion gyrfa, byddai swm y pensiwn a brynir â’r buddion a drosglwyddir yn fwy oherwydd eich gwarchodaeth Rheol 85.

Os cyfunir eich buddion gohiriedig blaenorol â’ch cofnod pensiwn gweithredol newydd dan opsiwn 2, bydd yno fwy o warchodaeth Rheol 85 os ydych chi’n agos at yr oedran ymddeol.

Os cawsoch chi eich pen-blwydd yn 60 rhwng 1 Ebrill 2016 a 31 Mawrth 2020 a’ch bod wedi ailymuno â’r cynllun cyn 1 Ebrill 2020, bydd Rheol 85 yn dal yn berthnasol i’r aelodaeth a gronnoch chi rhwng y dyddiad yr ailymunoch â’r cynllun a 31 Mawrth 2020 (er efallai y bydd y dyddiad y bodlonwch chi Reol 85 yn symud yn nes at eich oedran ymddeol arferol gan na fydd yr egwyl rhwng eich cyfnod aelodaeth blaenorol a’r cyfnod newydd yn cyfrif at ddibenion Rheol 85). Ni fydd Rheol 85 yn dal yn berthnasol, fodd bynnag, i’r swm o bensiwn a brynwyd wrth ichi gyfuno’ch pensiwn gohiriedig (ond bydd swm y pensiwn a brynwyd yn cynnwys swm i wneud iawn am golli gwarchodaeth Rheol 85 ar gyfer y pensiwn hwnnw).

# Opsiwn 3

Gallwch ddewis cadw’ch buddion gohiriedig ar wahân i’ch cofnod pensiwn gweithredol newydd. Os byddwch yn penderfynu peidio â chyfuno eich buddion gohiriedig neu os na fyddwch yn gwneud penderfyniad cyn pen 12 mis ar ôl ailymuno â’r cynllun, bydd eich buddion gohiriedig yn aros ar wahân.

## Sut bydd y buddion o fy swydd flaenorol yn cael eu cyfrifo?

Os ydych yn dewis opsiwn 3, bydd eich buddion gohiriedig yn aros fel y maent a defnyddir yr un ffordd i'w cyfrifo.   Os yw'ch buddion gohiriedig yn rhan o gronfa Cynllun Pensiwn Llywodraeth Leol arall, bydd yn aros yn y gronfa honno. Bydd eich buddion gohiriedig yn cynyddu pob blwyddyn yn unol â chwyddiant, fel mae'n cael ei fesur ar hyn o bryd gan y cynnydd i'r Mynegai Prisiau Defnyddwyr.

## Pryd fydd fy muddion yn daladwy?

Byddai'r dyddiad y mae'ch buddion gohiriedig yn daladwy yn aros yr un fath, gyda'ch oedran ymddeol arferol naill ai:

- yn 65 oed os yw'r buddion gohiriedig am gyfnod o aelodaeth a ddaeth i ben ar ôl 30 Medi 2006, neu'n
- ddyddiad rhywle rhwng 60 a 65 oed os yw'r buddion gohiriedig am gyfnod aelodaeth a ddaeth i ben ar neu cyn 30 Medi 2006

## Rheol 85

Os ydych yn dewis opsiwn 3 a bod gennych warchodaeth rheol 85, bydd y rhain yn dal i fod yn berthnasol i'ch buddion gohiriedig yn unig.

# Pa wahaniaethau allweddol sydd os byddaf yn dewis cadw fy muddion gohiriedig ar wahân?

| | **Buddion Cyfun** | **Buddion ar wahân** |
|---|---|---|
| **Diswyddo / Effeithlonrwydd Busnes** | Byddai buddion a delir yn gynnar oherwydd diswyddo neu effeithlonrwydd **yn cynnwys** gwerth y buddion gohiriedig blaenorol sydd wedi eu trosglwyddo.<br><br>Os ydych yn cael eich diswyddo neu'n colli eich swydd oherwydd rhesymau effeithlonrwydd busnes pan ydych yn 55 oed neu'n hŷn, yna byddai eich buddion yn daladwy ar unwaith, a **byddent** yn **cynnwys** gwerth y pensiwn a drosglwyddwyd o'ch buddion gohiriedig hefyd. | **Ni** fyddai buddion a delir yn gynnar oherwydd diswyddo neu effeithlonrwydd yn eich swydd newydd **yn cynnwys** gwerth y buddion gohiriedig blaenorol.<br><br>Os ydych yn cael eich diswyddo neu'n colli eich swydd oherwydd rhesymau effeithlonrwydd busnes pan ydych yn 55 oed neu'n hŷn, yna byddai eich buddion yn daladwy ar unwaith ond **ni fyddent yn cynnwys** gwerth y buddion gohiriedig (gan eich bod yn dewis cadw hwnnw fel pensiwn ar wahân).<br><br>Yn ddibynnol ar y wybodaeth yn y blychau isod, byddai'r buddion gohiriedig ar wahân yn daladwy pan fyddech yn cyrraedd eich oedran ymddeol arferol. |

| | | |
|---|---|---|
| **Salwch** | Byddai unrhyw fuddion a delir yn gynnar oherwydd salwch **yn cynnwys** gwerth y buddion gohiriedig blaenorol sydd wedi eu trosglwyddo.<br><br>Byddai'ch buddion yn daladwy ar unwaith os yw eich cyflogwr yn penderfynu, yn seiliedig ar farn meddyg annibynnol, na fyddwch yn gallu cyflawni eich swydd yn barhaol oherwydd salwch ac na fyddwch yn gallu gwneud unrhyw swydd arall. Byddai eich pensiwn yn cael ei dalu ar lefel uwch os ydych yn annhebygol o allu gwneud unrhyw waith arall o fewn tair blynedd o adael. **Byddai'r taliad yn cynnwys** gwerth y pensiwn a drosglwyddwyd o'ch buddion gohiriedig. | **Ni** fyddai unrhyw fuddion a delir yn gynnar oherwydd salwch **yn cynnwys** gwerth y buddion gohiriedig blaenorol.<br><br>Byddai'ch buddion yn daladwy ar unwaith os yw eich cyflogwr yn penderfynu, yn seiliedig ar farn meddyg annibynnol, na fyddwch yn gallu cyflawni eich swydd yn barhaol oherwydd salwch ac na fyddwch yn gallu gwneud unrhyw swydd arall. Byddai eich pensiwn yn cael ei dalu ar lefel uwch os ydych yn annhebygol o allu gwneud unrhyw waith arall o fewn tair blynedd o adael. **Ni fyddai'r taliad yn cynnwys** gwerth eich buddion gohiriedig (gan eich bod wedi dewis cadw'r rheini fel pensiwn ar wahân).<br><br>Gallai eich buddion gohiriedig ar wahân ddod yn daladwy ond dim ond os bydd eich cyn-gyflogwr wedi penderfynu, ar sail barn meddyg annibynnol, na allwch yn barhaol wneud y swydd yr oeddech yn ei gwneud pan wnaethoch adael eu cyflogaeth, ac nad ydych yn debygol o allu gwneud swydd arall cyn eich oedran ymddeol arferol neu am o leiaf 3 blynedd arall, pa un bynnag sydd gynharaf. |
| **Talu buddion yn gynnar** | Gallwch ddewis derbyn buddion cyfun yn wirfoddol mor gynnar â phan fyddwch yn 55 oed (fel arfer ar raddfa is er mwyn cyfrif am y taliad cynnar).<br><br>Fodd bynnag, byddai'r buddion cyfun yn cael eu talu ar yr un pryd (ni ellir eu talu ar adegau gwahanol) ac ni ellir eu talu tan i chi adael eich swydd newydd. | Gallwch ddewis yn wirfoddol cymryd eich buddion gohiriedig mor gynnar â:<br>• 60 oed neu,<br>• (gyda chaniatâd eich cyn-gyflogwr) 50 oed: os yw'r buddion gohiriedig oherwydd eich bod yn terfynu eich aelodaeth â'r cynllun ar ôl 31 Mawrth 1998 a chyn 1 Ebrill 2008, neu<br>• 55 oed os yw'r buddion gohiriedig oherwydd eich bod yn terfynu eich aelodaeth â'r |

| | | |
|---|---|---|
| | | cynllun ar ôl 31 Mawrth 2008 (fel arfer ar gyfradd is i gyfrif am y taliad cynnar)<br><br>Nid oes rhaid cymryd y buddion gohiriedig ar yr un pryd â'r buddion o'ch swydd newydd. Gallwch hyd yn oed gymryd y buddion gohiriedig tra byddwch yn dal i weithio yn eich swydd newydd (ar yr amod bod y buddion gohiriedig yn ymwneud â chyfnod aelodaeth a ddaeth i ben ar ôl 31 Mawrth 1998).<br><br>Gellir cymryd y buddion gohiriedig yn hwyrach na, ar yr un pryd â, neu'n gynt na buddion eich swydd newydd (yn amodol ar fod yr oedran lleiaf a nodir uchod a chael caniatâd eich cyn-gyflogwr os oes angen).<br><br>Fodd bynnag, os yw'r buddion gohiriedig yn gysylltiedig â chyfnod o aelodaeth a ddaeth i ben cyn 1 Ebrill 1998, y cynharaf y gallwch dderbyn y buddion gohiriedig yn wirfoddol yw:<br>• pan fyddwch yn 60 oed, os nad ydych mewn swydd sy'n cynnig aelodaeth o'r CPLlL bryd hynny, neu<br>• os ydych mewn swydd sy'n cynnig aelodaeth o'r CPLlL pan fyddwch yn 60 oed, y cynharaf o blith:<br>1. y dyddiad yr ydych yn gorffen y swydd,<br>2. eich oedran pensiwn arferol mewn perthynas â'r buddion gohiriedig hynny<br><br>Gallwch ddewis cymryd y pensiwn yr ydych yn ei gasglu yn eich cofnod pensiwn gweithredol yn eich swydd newydd mor fuan â 55 oed (fel arfer ar gyfradd is i gyfrif am dalu'n gynnar). |

| | | |
|---|---|---|
| **Cynnydd mewn costau byw** | **Os ydych yn dewis opsiwn 1**, bydd eich buddion cyfun o'ch aelodaeth ar ôl 31 Mawrth 2014 yn cael eu hailbrisio bob blwyddyn yn unol â Gorchmynion y Trysorlys. Mae'r ailbrisiad yn unol â'r cynnydd yn y Mynegai Prisiau Defnyddwyr ar hyn o bryd. Fodd bynnag, pan geir chwyddiant negyddol, gallai'r ailbrisiad dan Orchymyn Trysorlys EF fod yn negyddol.<br>Bydd y buddion cyfunol yr ydych wedi'u cronni cyn 1 Ebrill 2014 yn parhau i fod yn fuddion cyflog terfynol. Mae hyn yn golygu y byddant yn cael eu cyfrifo yn seiliedig ar eich cyflog terfynol cyfwerth â llawn amser yn y swydd newydd (pan fyddwch yn rhoi'r gorau i dalu cyfraniadau CPLlL yn y swydd honno).<br>**Os ydych yn dewis opsiwn 2**, bydd eich buddion cyfun sy'n cynnwys eich aelodaeth cyn ac ar ôl 1 Ebrill 2014 yn cael eu hailbrisio bob blwyddyn yn unol â Gorchmynion y Trysorlys. Mae'r ailbrisiad yn unol â'r cynnydd yn y Mynegai Prisiau Defnyddwyr ar hyn o bryd. Fodd bynnag, pan geir chwyddiant negyddol, gallai'r ailbrisiad dan Orchymyn Trysorlys EF fod yn negyddol. | Bydd y buddion yn y cofnod pensiwn cyfredol yn ddibynnol ar ailbrisio bob blwyddyn yn seiliedig ar Orchmynion Trysorlys EF. Mae'r ailbrisiad ar hyn o bryd yn unol â'r cynnydd yn y Mynegai Prisiau Defnyddwyr. Fodd bynnag, pan geir chwyddiant negyddol, gallai'r ailbrisiad dan Orchymyn Trysorlys EF fod yn negyddol.<br>Bydd buddion yn y cofnod pensiwn gohiriedig yn destun ailbrisiad bob blwyddyn o dan Ddeddf Pensiynau (Cynnydd) 1971. Mae'r ailbrisiad ar gyfer y dyfodol yn unol â'r cynnydd yn y Mynegai Prisiau Defnyddwyr ar hyn o bryd. Mewn cyfnodau o chwyddiant negyddol, byddai'r ailbrisio o dan Ddeddf Pensiynau (Cynnydd) 1971 yn 0% (ni all fod yn negyddol). |

# A oes unrhyw beth pwysig arall i'w ystyried?

## Cyfandaliad marw yn y swydd

Fel aelod o'r CPLlL, os ydych chi'n marw yn y swydd, byddai cyfandaliad dair gwaith eich cyflog pensiynadwy yn daladwy fel arfer. Os oes gennych bensiwn gohiriedig a'ch bod yn marw cyn iddo gael ei dalu, caiff cyfandaliad sy'n hafal i bum gwaith y pensiwn gohiriedig ei dalu os yw'r buddion gohiriedig yn ymwneud â chyfnod aelodaeth a ddaeth i ben ar ôl 31 Mawrth 2008, neu gyfandaliad sy'n hafal i dair gwaith y pensiwn gohiriedig os yw'r buddion gohiriedig yn ymwneud â chyfnod aelodaeth a ddaeth i ben cyn 1 Ebrill 2008. Fodd bynnag,

dim ond un swm ar gyfer cyfandaliad yswiriant bywyd sy'n daladwy gan y CPLlL, felly, hyd yn oed os byddwch yn cadw eich buddion gohiriedig ar wahân i'ch cofnod pensiwn gweithredol, dim ond y cyfandaliad yswiriant bywyd mwyaf ar gyfer eich buddion gohiriedig neu'ch cofnod pensiwn gweithredol fyddai'n daladwy.

## Goblygiadau Treth Posibl ar Lwfans Blynyddol

Dylech fod yn ymwybodol o unrhyw oblygiadau treth posibl ynghlwm â chyfuno eich buddion gohiriedig gyda'ch cofnod pensiwn gweithredol newydd. Yn yr achos annhebygol lle byddai angen i chi dalu treth, byddai eich cronfa CPLlL yn rhoi gwybod i chi.

## Talu cyfraniadau ychwanegol

Ydych chi wedi talu cyfraniadau ychwanegol tuag at brynu aelodaeth neu bensiwn ychwanegol? Byddai'r rhain yn cynnwys cyfraniadau gwirfoddol ychwanegol (CGY), blynyddoedd ychwanegol, cyfraniadau rheolaidd ychwanegol (CRhY) neu gyfraniadau pensiwn ychwanegol (CPY). Darllenwch adran **talu cyfraniadau ychwanegol** yn yr adran **esbonio'r jargon** yn y daflen wybodaeth hon o ran beth yw eich dewisiadau ar gyfer eich cyfraniadau ychwanegol.

## Trosglwyddo gwerth eich buddion gohiriedig i gynllun pensiwn arall

Hyd yn oed os byddwch yn dewis peidio â chyfuno eich buddion, ni fydd modd i chi drosglwyddo gwerth eich buddion gohiriedig i gynllun pensiwn arall tra byddwch yn cyfrannu i'r CPLlL, neu os oes gennych lai na blwyddyn i fynd cyn cyrraedd eich oedran ymddeol arferol.

## Esbonio'r jargon

Cyn cyfuno buddion blaenorol yn y CPLlL gyda'ch cofnod pensiwn cyfredol newydd (neu barhaus), dylech ystyried eich dewisiadau cyn gwneud penderfyniad. Mae'r wybodaeth yn y daflen hon yn benodol i'ch amgylchiadau chi.

Darperir esboniad o'r jargon er mwyn egluro rhai o'r termau a ddefnyddir yn y daflen ac i roi mwy o fanylion i chi ynglŷn â sut mae eich buddion yn cael eu cyfrifo yn y CPLlL, pryd y byddant yn daladwy i chi a gwybodaeth bwysig arall am fesurau diogelu a thalu cyfraniadau ychwanegol yn y CPLlL.

## Cyfrifo eich buddion yn y CPLlL

Mae cyfrifo eich buddion CPLlL yn dibynnu ar bryd y gwnaethoch gasglu eich aelodaeth yn y cynllun.

| | |
|---|---|
| **O 1 Ebrill 2014 ymlaen** | Cynllun Enillion Cyfartalog Gyrfa wedi'u Hailbrisio |
| **Hyd at 31 Mawrth 2014** | Cynllun Cyflog Terfynol (2 gyfrifiad gwahanol)<br>• o 1 Ebrill 2008 i 31 Mawrth 2014, a<br>• hyd at 31 Mawrth 2008 |

## Cynllun Cyfartaledd Gyrfa

**Ar gyfer blynyddoedd o aelodaeth a gasglwyd o 1 Ebrill 2014 ymlaen:** bob blwyddyn byddwch yn casglu pensiwn ar gyfradd o 1/49 o gyfanswm y cyflog pensiynadwy a dderbyniwyd yn y flwyddyn honno o'r cynllun, os ydych ym mhrif adran y cynllun (neu hanner y gyfradd hon ar gyfer unrhyw gyfnod lle'r ydych wedi dewis bod yn adran 50:50 y cynllun). Caiff y pensiwn hwn ei ychwanegu at eich cofnod pensiwn a'i ailbrisio ar ddiwedd pob blwyddyn yn y cynllun fel bod eich pensiwn yn cyd-fynd â chostau byw.

**Cyflog pensiynadwy:** ar gyfer buddion a gasglwyd ers 1 Ebrill 2014, eich cyflog pensiynadwy yw'r cyflog sy'n sail i'ch cyfraniadau pensiwn. Fodd bynnag, os oeddech ar fathau penodol o absenoldebau yn ystod blwyddyn y cynllun, mae eich pensiwn yn cael ei gyfrifo ar eich cyflog pensiynadwy tybiedig. Y mathau penodol o absenoldebau yw:

- cyflog cytundebol is
- dim cyflog oherwydd salwch neu anaf
- absenoldeb perthnasol yn gysylltiedig â phlant
- cyfnod gwasanaeth y lluoedd wrth gefn

## Cynllun Cyflog Terfynol

**Ar gyfer aelodaeth a gasglwyd o 1 Ebrill 2008 hyd at 31 Mawrth 2014:** rydych yn cael pensiwn ar gyfradd o 1/60 o'ch cyflog terfynol. Nid oes cyfandaliad awtomatig ar gyfer aelodaeth a gasglwyd ar ôl Mawrth 2008, ond gallwch ddewis troi rhywfaint o'ch pensiwn blynyddol yn gyfandaliad di-dreth.

**Ar gyfer aelodaeth a gasglwyd hyd at 31 Mawrth 2008:** rydych yn derbyn pensiwn ar gyfradd o 1/80 o'ch cyflog terfynol yn ogystal â chyfandaliad di-dreth awtomatig o 3 gwaith eich pensiwn.

## Lwfans Blynyddol

Y lwfans blynyddol yw'r swm y gall eich cynilion pensiwn gynyddu mewn unrhyw flwyddyn heb dalu treth ychwanegol.

Bydd yn rhaid talu tâl treth lwfans blynyddol os yw gwerth eich cynilion pensiwn ar gyfer blwyddyn dreth yn cynyddu o fwy na £60,000 yn unig. Byddai cyfuno eich buddion gohiriedig blaenorol lle bo eich buddion cyflog terfynol yn awr yn gysylltiedig â'r cyflog terfynol parhaus newydd yn cynyddu eich cynilion pensiwn yn y flwyddyn yr ydych yn trosglwyddo. Fodd bynnag, mae rheol dwyn ymlaen o dair blynedd yn caniatáu i chi ddwyn ymlaen lwfans blynyddol sydd heb ei ddefnyddio o'r tair blynedd dreth ddiwethaf. Golyga hyn, hyd yn oed os yw gwerth eich cynilion pensiwn yn cynyddu mwy na £60,000 mewn blwyddyn, mae'n bosibl na fydd yn rhaid i chi dalu'r tâl treth lwfans blynyddol.

Ni fydd tâl treth lwfans blynyddol yn effeithio ar y rhan fwyaf o bobl oherwydd ni fydd gwerth eu cynilion pensiwn yn cynyddu'n fwy na £60,000 mewn blwyddyn dreth. Os bydd, maent yn debygol o gael lwfans sydd heb ei ddefnyddio mewn blynyddoedd treth blaenorol y gellir ei gario ymlaen.

## Mynegai Prisiau Defnyddwyr

Y Mynegai Prisiau Defnyddwyr yw'r mesur swyddogol o chwyddiant prisiau defnyddwyr yn y Deyrnas Unedig. Hwn yw'r mesur a ddefnyddir ar hyn o bryd i addasu eich cofnod pensiwn ar ddiwedd pob blwyddyn yn y cynllun pan rydych yn aelod gweithredol o'r cynllun.

Mae hefyd yn cael ei ddefnyddio bob Ebrill i gynyddu gwerth eich pensiwn gohiriedig yn y cynllun ac unrhyw bensiwn a delir o'r cynllun. Mae'r addasiad yn sicrhau bod eich pensiwn yn tyfu'n unol â chostau byw.

## Cyflog terfynol

Mae diffiniad tâl cyflog terfynol ar gyfer buddion a gasglwyd cyn 1 Ebrill 2014 yr un fath ag yr oedd cyn i'r cynllun newid o fod yn un cyflog terfynol i un cyfartaledd gyrfa ar 1 Ebrill 2014.

Y cyflog terfynol fel arfer yw'r cyflog a enillwyd ar gyfer eich blwyddyn olaf o aelodaeth yn y cynllun y gwnaethoch dalu cyfraniadau arni, neu un o'r 2 flynedd flaenorol os yw hynny'n uwch. Mae'r prif wahaniaethau i'r tâl a ddefnyddir ar gyfer buddion cyfartaledd gyrfa yn cynnwys:

- Os ydych yn gweithio oriau rhan-amser pan ydych yn gadael y CPLlL, neu os ydych wedi gweithio oriau rhan-amser ar ryw adeg yn ystod eich blwyddyn olaf o aelodaeth, bydd eich taliad cyflog terfynol yn daliad llawn amser y byddech wedi'i dderbyn pe baech wedi gweithio'n llawn amser

- Nid yw'n cynnwys goramser y tu allan i'r contract

Mae mesurau diogelu eraill ar gyfer cyflog terfynol:

- os yw eich cyflog yn is oherwydd cyfnod o salwch,
- os ydych ar gyfnod absenoldeb rhiantol,
- os yw eich cyflog yn is neu bod cynnydd i'ch cyflog wedi'i gyfyngu

Cofiwch, os yw eich buddion wedi'u cyfuno â'ch cofnod pensiwn gweithredol newydd ac os ydynt yn prynu swm o bensiwn yn y cynllun cyfartaledd gyrfa, ni fydd unrhyw fuddion cyflog terfynol yr ydych wedi'u casglu bellach yn cael eu cyfrifo gan ddefnyddio'r cyfrifiadau cyflog terfynol; byddant yn cael eu trin fel buddion cyfartaledd gyrfa yn lle.

## Oedran ymddeol arferol

Yr oedran ymddeol arferol ar gyfer buddion gohiriedig, pan fu i'r aelod roi'r gorau i dalu cyfraniadau CPLlL ar ôl 30 Medi 2006 a chyn 1 Ebrill 2014, yw 65 oed.

Yr oedran ymddeol arferol ar gyfer buddion gohiriedig, pan fu i'r aelod roi'r gorau i dalu cyfraniadau CPLlL,  cyn 1 Hydref 2006 yw:

- 60 oed, pe bai gennych werth 25 mlynedd neu fwy o aelodaeth yn y cynllun erbyn yr oedran hwnnw pe baech wedi aros yn y cynllun tan hynny, neu
- Y dyddiad y byddech wedi bod yn aelod ers 25 mlynedd, pe bai'r dyddiad hwnnw yn disgyn ar ôl i chi gyrraedd 60 oed a chyn i chi gyrraedd 65 oed, neu
- 65 oed, pe na bai gennych werth 25 mlynedd o aelodaeth yn y cynllun erbyn yr oedran hwnnw pe baech wedi aros yn y cynllun tan hynny

Mae'r oedran ymddeol arferol ar gyfer buddion a gronnwyd o 1 Ebrill 2014 yn gysylltiedig ag Oedran Pensiwn y Wladwriaeth (ond gydag isafswm oedran o 65 oed). Os yw'ch buddion gohiriedig wedi'u cyfuno â'ch cofnod pensiwn gweithredol newydd ac os oes unrhyw fuddion cyflog terfynol yr ydych wedi'u cronni eisoes yn cael eu cyfrif fel buddion cyflog terfynol, 65 oed fydd yr oedran ymddeol  o hyd.

Os yw'ch buddion wedi'u cyfuno â'ch cofnod pensiwn gweithredol newydd ac os oes unrhyw fuddion cyflog terfynol yr ydych wedi'u cronni eisoes bellach yn cael eu cyfrif fel buddion cyfartaledd gyrfa, yna bydd oedran ymddeol arferol newydd yn berthnasol sy'n gysylltiedig â'ch oedran Pensiwn y Wladwriaeth (ond 65 oed fydd yr isafswm oedran).

Os yw'ch buddion wedi'u cyfuno â'ch cofnod pensiwn gweithredol newydd, bydd unrhyw fuddion cyfartaledd gyrfa yn parhau gydag oedran ymddeol arferol sy'n gysylltiedig â'ch oedran Pensiwn y Wladwriaeth (ond 65 oed fydd yr isafswm oedran).

Os ydych yn dewis cymryd eich pensiwn cyn eich oedran ymddeol arferol, bydd y pensiwn yr ydych wedi'i gronni yn y cynllun fel arfer yn gostwng, gan ei fod yn cael ei dalu'n gynharach. Os ydych yn ei gymryd ar ôl eich oedran ymddeol arferol, bydd yn cynyddu gan ei fod yn cael ei dalu'n hwyrach. Bydd unrhyw ostyngiad neu gynnydd yn seiliedig ar sawl blwyddyn yn gynt neu'n hwyrach na'ch oedran ymddeol arferol yr ydych yn derbyn y pensiwn yr ydych

wedi’i gasglu yn y cynllun. Os yw eich oedran ymddeol arferol ar gyfer buddion yn y cynllun cyflog terfynol yn wahanol i'ch oedran ymddeol arferol yn y cynllun cyfartaledd gyrfa, bydd lefel y gostyngiadau neu gynnydd sy'n berthnasol i bob set o fuddion yn wahanol. Sylwch na allwch dderbyn y buddion yr ydych wedi'u casglu yn y cynllun cyflog terfynol ar wahân i'r buddion yr ydych wedi'u casglu yn y cynllun cyfartaledd gyrfa os ydynt wedi cael eu cyfuno. Byddai’n rhaid i chi dderbyn eich holl bensiwn ar yr un pryd (ac eithrio yn achos ymddeoliad hyblyg). Os oes gennych fesurau diogelu rheol 85, bydd y rhain yn dal i fod yn berthnasol. Am ragor o wybodaeth, gweler yr esboniad o reol 85 isod.

## Talu cyfraniadau ychwanegol?

Yn y CPLlL, mae nifer o ffyrdd y gall aelodau dalu cyfraniadau ychwanegol i gynyddu eu buddion. Efallai fod gennych un o’r trefniadau canlynol. Os felly, mae angen i chi ddeall beth sy’n digwydd i unrhyw daliadau yr ydych eisoes wedi’u gwneud a ph'un a allwch barhau i dalu’r cyfraniadau ychwanegol hyn yn eich swydd newydd.

### Prynu blynyddoedd ychwanegol (aelodaeth ychwanegol)

Mae’r rhain yn gontractau presennol i brynu aelodaeth ychwanegol a rhaid i'r contract fod wedi dechrau cyn 1 Ebrill 2008.

Os ydych yn cyfuno eich buddion gohiriedig gyda’ch cofnod pensiwn gweithredol newydd ac os yw eich buddion cyflog terfynol yn dal i gael eu trin fel buddion a gronnwyd cyn 1 Ebrill 2014, ni all eich contract presennol ond barhau :

- Os yw’r bwlch rhwng gadael eich hen swydd a dechrau eich swydd newydd yn llai na 12 mis, ac
- Os ydych yn dewis parhau i dalu eich cyfraniadau ychwanegol i brynu blynyddoedd ychwanegol cyn pen 3 mis ar ôl ail-ymuno â’r CPLlL yn eich swydd newydd, ac
- Os ydych yn talu unrhyw gyfraniadau ychwanegol yn ystod y tri mis hynny tuag at eich contract blynyddoedd ychwanegol a fyddai wedi bod yn ddyledus yn ystod y bwlch (os oedd bwlch) rhwng y swyddi

Mae’r blynyddoedd ychwanegol yn cyfrif at eich buddion yn y cynllun cyflog terfynol.

Os ydych yn cyfuno eich buddion gohiriedig â’ch cofnod pensiwn gweithredol newydd a bod eich buddion cyflog terfynol yn cael eu trin fel pensiwn cyfartaledd gyrfa (maent wedi prynu swm o bensiwn yn y cynllun cyfartaledd gyrfa) ni all eich contract presennol barhau. Defnyddir unrhyw aelodaeth ychwanegol yr ydych eisoes wedi’i phrynu ac sydd wedi’i chredydu i gyfrifo’r pensiwn ychwanegol a enillwyd sydd i’w ychwanegu at eich cofnod pensiwn gweithredol newydd.  Mae hyn yn golygu y byddai’n cyfrif fel pensiwn cyfartaledd gyrfa.  Nid oes modd dewis prynu mwy o aelodaeth ychwanegol; ond mae modd ystyried prynu pensiwn ychwanegol (a elwir yn gyfraniadau pensiwn ychwanegol).  Gallwch gysylltu â’ch Cronfa CPLlL am ragor o wybodaeth.

Os ydych yn dewis peidio â chyfuno eich buddion gohiriedig, ni all unrhyw gontract blynyddoedd ychwanegol presennol barhau a bydd unrhyw aelodaeth ychwanegol yr ydych

eisoes wedi'i phrynu yn cael ei chynnwys yn eich buddion gohiriedig. Ni allwch barhau i dalu am eich contract blynyddoedd ychwanegol os ydych yn dewis cadw buddion gohiriedig ar wahân.

## Talu cyfraniadau rheolaidd ychwanegol (CRhY)

Mae'r rhain yn gontractau i brynu pensiwn ychwanegol a drefnwyd rhwng 1 Ebrill 2008 a 31 Mawrth 2014.

P'un ai ydych yn dewis cyfuno eich buddion â'r cofnod pensiwn gweithredol newydd ai peidio, nid oes unrhyw amgylchiadau lle gall contract CRhY presennol barhau.

Os ydych yn cyfuno eich buddion â'ch cofnod pensiwn gweithredol newydd ac os yw eich buddion cyflog terfynol yn dal i gael eu trin fel buddion a gronnwyd cyn 1 Ebrill 2014, bydd cyfanswm y CRhY yr ydych eisoes wedi'u prynu yn cael ei ychwanegu at werth eich pensiwn cyflog terfynol.

Os ydych yn cyfuno eich buddion â'ch cofnod pensiwn gweithredol newydd a bod eich buddion cyflog terfynol yn cael eu trin fel pensiwn cyfartaledd gyrfa (maent wedi prynu swm o bensiwn yn y cynllun cyfartaledd gyrfa), bydd unrhyw bensiwn ychwanegol yr ydych eisoes wedi'i brynu ac sydd wedi'i gredydu yn cael ei gymryd i ystyriaeth wrth gyfrifo'r pensiwn ychwanegol a enillwyd i'w ychwanegu at eich cyfrif pensiwn gweithredol newydd.

Os ydych yn dymuno talu mwy o gyfraniadau yn eich swydd newydd, gallwch ystyried prynu pensiwn ychwanegol (a elwir yn gyfraniadau pensiwn ychwanegol). Gallwch gysylltu â'ch Cronfa CPLlL am ragor o wybodaeth.

Os ydych yn dewis peidio â chyfuno eich buddion, bydd unrhyw bensiwn ychwanegol yr ydych eisoes wedi'i brynu yn cael ei gynnwys yn eich buddion gohiriedig. Ni allwch barhau i dalu am eich contract CRhY os ydych yn dewis cadw buddion gohiriedig ar wahân.

## Talu cyfraniadau pensiwn ychwanegol (CPY)

Mae'r rhain yn gontractau i brynu pensiwn ychwanegol a gymerwyd ar neu ar ôl 1 Ebrill 2014.

Bydd unrhyw drefniadau CPY presennol yr ydych wedi'u dechrau, i brynu pensiwn a gollwyd neu bensiwn ychwanegol, yn dod i ben ar ôl i chi adael y swydd y maent yn gysylltiedig â nhw.

Bydd unrhyw bensiwn ychwanegol a gasglwyd drwy'r CPY yn cael ei ychwanegu at eich cofnod pensiwn gweithredol newydd os yw eich buddion wedi'u cyfuno.

Os ydych yn dewis peidio â chyfuno eich buddion gohiriedig, bydd unrhyw bensiwn ychwanegol presennol yr ydych eisoes wedi'i brynu yn daladwy gyda'ch buddion gohiriedig. Ni allwch barhau i dalu tuag at eich trefniant CPY blaenorol os ydych yn dewis cadw buddion gohiriedig ar wahân.

Gallwch ddewis gwneud trefniant CPY arall yn eich swydd newydd.  Gallwch gysylltu â'ch Cronfa CPLlL am ragor o wybodaeth.

### Cyfraniadau gwirfoddol ychwanegol (CGY)

Os ydych wedi talu Cyfraniadau Gwirfoddol Ychwanegol, rhaid i werth eich CGY gael ei drosglwyddo i drefniant CGY a gynigir gan eich Cronfa CPLlL newydd os ydych yn trosglwyddo buddion eich prif gynllun.

Ceir eithriad i'r rheol honno, fodd bynnag. Os oeddech yn aelod blaenorol o'r CPLlL ar 31 Mawrth 2014 ac 1 Ebrill 2014 (neu os nad oeddech yn aelod ar y dyddiadau hynny ond cyn pen 12 mis ar ôl dychwelyd i'r CPLlL yn dewis cael eich trin fel pe baech wedi bod yn aelod ar y dyddiadau hynny) ac os nad oes gennych fwlch parhaus o fwy na phum mlynedd mewn aelodaeth weithredol mewn cynllun pensiwn sector cyhoeddus, gallwch ddewis peidio â throsglwyddo gwerth cronedig eich CGY i drefniant CGY a gynigir gan eich cronfa CPLlL newydd.  Os ydych chi'n trosglwyddo gwerth eich Cyfraniadau Gwirfoddol Ychwanegol, yna unwaith y byddwch chi wedi trosglwyddo i'r darparwr newydd, fe gaiff ei drin fel contract dan reolau'r cynllun sy'n weithredol ar adeg y trosglwyddiad.

## Cynllun pensiwn sector cyhoeddus

Mae cynllun pensiwn sector cyhoeddus yn cynnwys cynlluniau pensiwn sy'n cynnwys:

- gweision sifil
- y farnwriaeth
- y lluoedd arfog
- unrhyw gynllun yn Lloegr, Cymru neu'r Alban sy'n cynnwys gweithwyr llywodraeth leol
- athrawon
- gweithwyr y gwasanaeth iechyd
- gweithwyr tân ac achub
- aelodau'r heddlu
- aelodau cynllun pensiwn corff cyhoeddus newydd

## Rheol 85

### Beth yw Rheol 85?

Rydych yn gymwys ar gyfer rheol 85 os yw eich oedran ar y dyddiad yr ydych yn derbyn eich buddion a'ch aelodaeth yn y cynllun (mewn blynyddoedd cyfan yn y ddau achos) yn dod i gyfanswm o 85 neu fwy.

Os ydych yn gweithio oriau rhan-amser, bydd eich aelodaeth yn cyfrif tuag at reol 85 yn ei hyd calendr llawn.

Mae'n bosibl na fydd pob aelodaeth yn cyfrif wrth gyfrifo a ydych yn bodloni'r rheol 85 mlynedd neu beidio.

## I bwy mae’r rheol yn berthnasol?

Os oeddech yn aelod o’r CPLlL ar 30 Medi 2006 a’ch bod yn penderfynu cymryd eich pensiwn yn gynnar, mae’n bosibl y bydd rhywfaint neu eich holl fuddion cynllun cyflog terfynol yn cael eu diogelu rhag gostyngiad talu’n gynnar. Gall cyfrifo sut yr ydych yn cael eich effeithio gan y rheol 85 fod yn eithaf cymhleth, ond dylai hyn eich helpu i ganfod eich sefyllfa gyffredinol:

- **Pe na baech yn bodloni rheol 85 erbyn i chi gyrraedd 65 oed**, yna bydd eich holl fuddion yn cael eu gostwng pe baech yn dewis derbyn eich pensiwn cyn eich oedran ymddeol arferol. Bydd y gostyngiad yn seiliedig ar faint o flynyddoedd cyn eich oedran ymddeol arferol yr ydych yn cymryd eich pensiwn:
  - oedran ymddeol arferol yw 65 oed fel arfer, ar gyfer pensiwn a gronnwyd cyn 1 Ebrill 2014, ac
  - mae eich oedran ymddeol arferol yn gysylltiedig â’ch oedran Pensiwn y Wladwriaeth ar gyfer pensiwn a gronnwyd o 1 Ebrill 2014

- **Os ydych chi’n 60 oed a throsodd ac yn diwallu Rheol 85:**

| Dyddiad Geni | Pensiwn a gronnwyd ar neu cyn 31 Mawrth 2008 | Pensiwn a gronnwyd rhwng 1 Ebrill 2008 a 31 Mawrth 2016 | Pensiwn a gronnwyd rhwng 1 Ebrill 2016 a 31 Mawrth 2020 | Pensiwn a gronnwyd ar neu ar ôl 1 Ebrill 2020 |
|---|---|---|---|---|
| Rhwng 1 Ebrill 1956 a 31 Mawrth 1960 | Dim gostyngiad | Taprog: hynny yw yn cael ei leihau yn rhannol ar raddfa symudol | Taprog | Gostyngiad llawn |
| Ar 1 Ebrill 1960 neu wedi hynny | Dim gostyngiad | Gostyngiad llawn | Gostyngiad llawn | Gostyngiad llawn |

Yr unig adeg pan na fydd mesurau diogelu rheol 85 yn berthnasol fel mater o drefn yw os bydd gennych hawl i dderbyn y buddion gohiriedig ar ôl 31 Mawrth 2014 ac:

- Eich bod yn dewis cadw’r buddion hynny ar wahân i’ch swydd newydd neu gyfredol ac yn dewis tynnu’r buddion gohiriedig hynny yn wirfoddol ar neu ar ôl i chi gyrraedd 55 oed a chyn i chi gyrraedd 60 oed, neu
- Nad ydych yn dewis cadw’r buddion hynny ar wahân i’ch swydd newydd neu gyfredol, ac ar ôl hynny yn gadael y cynllun cyn i chi gyrraedd 60 oed a dewis tynnu eich buddion cyfun yn wirfoddol ar neu ar ôl i chi gyrraedd 55 oed a chyn i chi gyrraedd 60 oed

### Os wyf yn penderfynu cyfuno fy muddion, a fydd hynny'n effeithio ar fy mesurau diogelu rheol 85?

Os ydych yn penderfynu a ydych am gyfuno eich buddion yn y CPLlL neu beidio, bydd angen i chi fod yn ymwybodol o'r effaith bosibl ar unrhyw fesurau diogelu rheol 85.

Sylwch, os yw rheol 85 yn berthnasol i rywfaint o, neu eich holl fuddion blaenorol yn y CPLlL a bod bwlch hir rhwng y diwrnod y gwnaethoch adael y cynllun a'r diwrnod y gwnaethoch ail-ymuno â'r cynllun, gallai cyfuno eich buddion effeithio ar eich mesurau diogelu rheol 85 gan y gallai wneud eich dyddiad rheol 85 yn hwyrach. Yn yr achos hwn, gallai cadw eich buddion gohiriedig ar wahân ddiogelu eich dyddiad rheol 85 cynharach ar y buddion gohiriedig hynny ond ni fyddai gennych fesurau diogelu rheol 85 ar y buddion rydych yn eu cronni yn eich swydd newydd. Byddai'r dyddiad rheol 85 cynharach ar y buddion gohiriedig hynny yn cael ei ddiogelu oherwydd pan gaiff eich dyddiad rheol 85 ei gyfrifo, mae'r cyfnod ar ôl i chi adael y CPLlL  (a elwir yn wasanaeth tybiannol), yn cael ei gynnwys yn y cyfrifiad hefyd er nad oeddech yn talu cyfraniadau ar y pryd. Os ydych yn ail-ymuno ac yn cyfuno eich buddion blaenorol, ni fyddai'r aelodaeth dybiannol yn cael ei defnyddio mwyach, ac ni fyddai unrhyw fwlch mewn aelodaeth yn y CPLlL yn cael ei ddefnyddio wrth gyfrifo pryd y byddech yn bodloni rheol 85 yn y swydd newydd.

## Ble allaf i ddod o hyd i ychwaneg o wybodaeth?

Canllaw cyffredinol yn unig yw'r daflen ffeithiau hon.  Os oes arnoch angen ychwaneg o wybodaeth, cysylltwch â Chronfa Bensiynau Clwyd:

**Ffôn:** 01352 702875

**E-bost:** **pensiynau@siryflint.gov.uk**

**Cyfeiriad:** Cronfa Bensiynau Clwyd, Tŷ Dewi Sant, Parc Dewi Sant, Ewloe, Sir y Fflint, CH5 3FF

**Gwefan:** **https://cronfabensiynauclwyd.org.uk**

## Ymwadiad

Ni all Cronfa Bensiynau Clwyd gynnig unrhyw gyngor ariannol. Ar ôl darllen y daflen ffeithiau hon, efallai y byddai'n ddoeth i chi geisio cyngor ariannol annibynnol i wneud penderfyniad cytbwys.

Efallai y gall y cyrff hyn eich helpu:

**Unbiased:**
**https://unbiased.co.uk** (mae'r ddolen yn mynd i wefan allanol felly bydd yn Saesneg).

**Helpwr Arian:**
**https://www.moneyhelper.org.uk/cy/getting-help-and-advice/financial-advisers/choosing-a-financial-adviser**

cronfabensiynauclwyd.org.uk

**Cronfa Bensiynau Clwyd, Tŷ Dewi Sant, Parc Dewi Sant, Ewloe, Sir y Fflint, CH5 3FF**

Cyngor Sir y Fflint yw awdurdod gweinyddu Cronfa Bensiynau Clwyd ac rydym ni'n defnyddio eich data personol yn unol â'r ddeddfwriaeth Diogelu Data i ddarparu gwasanaeth gweinyddu pensiynau i chi. I gael rhagor o wybodaeth am sut rydym yn defnyddio eich data, gyda phwy rydym yn ei rannu, a'r hawliau sydd gennych mewn perthynas â'ch data, darllenwch yr Hysbysiad Preifatrwydd ar ein gwefan.